Annwyl Rieni, Warcheidwyr a Phlant Ysgol Gwenffrwd,

Dyma syniadau creadigol ar gyfer gwaith cartref. Cewch ddewis gweithgareddau o'r dewisiadau isod. Byddai'n hyfryd petasech yn gallu cadw unrhyw dystiolaeth mewn ffolder i'w rannu efo ni pan ddowch yn ôl i'r ysgol. Hwyl fawr a chadwch yn ddiogel.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Darllen bob dydd, e.e. storïau, comics, cylchgronnau ayyb. | Ysgrifennu llythyr neu e-bost at ffrind. | Ymarfer tablau (J2Blast) | Cael sgwrs ffôn yn y Gymraeg. | Dawnsio a chanu i'ch hoff gân. |
| Chwarae neu greu gêm fwrdd. | Ymarfer llawysgrifen. (Cynllun Berol) | Ysgrifennu adolygiad llyfr neu broffil cymeriad (fframiau ar Twinkl). | Gwyliwch ffilm ac ysgrifennwch adolygiad o'r ffilm. | Cwblhau ymarferion cadw'n heini (e.e. sgiliau pêl – taflu a dal) yn eich gardd. |
| Dylunio poster ar gyfer ffilm. | Gwneud rhywbeth allan o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu. | Ymarfer dweud yr amser a darllen amserlenni (e.e. ams-erlen sianel deledu). | Tynnwch lun o'r olygfa o ffenestr yn eich tŷ. | Gwyliwch raglen deledu Cymraeg (S4C neu wefan/ap Clic). |
| Siaradwch am eich hoff le, person, gêm, tegan, anifail annwes ac ati (anelwch i siarad am 2 funud os yn y CS; 5 munud i CA2). | Helpu gyda tasgau (e.e. tacluso eich ystafell wely?) | Ysgrifennu dyddiadur dyddiol. | Dyluniwch eich ystafell wely ddelfrydol. | Gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg – beth am ddysgu cân i'w pherfformio pan ddowch yn ôl. |
| Chwarae gêm gardiau (e.e. gemau cof - paru cardiau). | Tynnu llun a'i liwio. | Gwnech byped hosan a chrëwch sioe i'ch teulu. | Ymarfer sillafu - Geiriau allweddol (Twinkl) a J2Blast. | Ysgrifennu stori. |
| Ymchwilio ac ailadrodd stori'r Pasg. | Dylunio ac addurno ŵy ar gyfer y Pasg. | Creu 'collage' gyda phapur sgrap. | Ysgrifennu cerdd am y Gwanwyn. | Cael picnic dan do. |
| Tyfwch blanhigyn. | Ymarfer sgiliau sgipio (1 coes, 2 goes, croesi breichiau ayyb). | Gwnewch smŵddi iach. | Rhowch gynnig ar rywbeth newydd! | Darllen darn o farddoniaeth. |

**Gweler rhestr o 'lincs' / gwefannau a'r rhestr apiau am ddim i'ch helpu gyda'ch gwaith adref.**

Hwb – Defnyddiwch y llwyfan yma i gael mynediad at amryw o adnoddau ac i ddefnyddio Office365 i gofnodi eich gwaith.

www.hwb.gov.wales

Twinkl – Defnyddiwch y  côd  UKTWINKLHELPS i gael mynediad at adnoddau yn rhad ac am ddim ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.
www.twinkl.co.uk/offer

Tudalen Oriel Rhys Jones- Dangos sut i lunio anifeiliaid efo cyfarwyddiadau yn Gymraeg

https://www.youtube.com/user/MrRhyspadarn?fbclid=IwAR0uKUx2ZFI2v5UwjI73yDOn7jB3S76Jtu9B17fGLKw0P_hI-m9rZgAIU9Y&app=desktop

Gwefan Llyfrgell Cymru- Ddarllen e-gomig neu e-lyfr. Mae dewis o deitlau Cymraeg a Saesneg ar gael yn rhad ac am ddim.

https://llyfrgelloedd.cymru/rbdigital-comics/?fbclid=IwAR07Fz3xsmep5U4gegQI_dum5QjJ4cP790_gfRMBRwccg56qt8I5QByxY4Q

Plant ifanc yn gallu gwarando ar odlau a storiau.

https://www.booktrust.org.uk/cy-gb/what-we-do/programmes-and-campaigns/bookstart/families/bookstart-in-wales/listen-to-bookstart-stories/?fbclid=IwAR03AkX9_IzESHxow2AIXroOFoozrxhIdlgI9n0qLtH1eajBIcgklid_YEk

Cliciadur- Cylchgrawn i blant cynradd

https://hwb.gov.wales/repository/resource/ff4afd70-678d-4b46-9ad6-dad079eb9f54/cy/tab/fbclid=IwAR3YtRHtqLr1s0svpjd9Nmoc9PY77y44jymN4EJXvZYzWNRcZ--c0-4LL-0

Cyfres o storïau ar Hwb am ddau frawd sef Moi a Twm syn cynnwys geirfa gyfarwydd â chystrawennau syml addas

https://hwb.gov.wales/repository/resource/a379dab8-3f97-4642-8d89-80d3a4807511/cy

Cyfres o weithgareddau cychwynnol byr a chyflym i wella sgiliau darllen a sillafu

https://hwb.gov.wales/repository/resource/456cd0b3-af30-47ee-b26e-0dd75fcba00a/cy

Cyfres o storïau rhyngweithiol sy'n annog y darllenydd i ystyried sut mae stori yn gallu newid.

https://hwb.gov.wales/repository/resource/e5b87244-c41e-4f1d-9494-f217f523e129/cy